------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Comisiwn y Cynulliad

Lleoliad:
**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ Hywel**

Dyddiad:
**Dydd Llun, 9 Chwefror 2015**

Amser:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales


I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Sulafa Thomas, x8669**
Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn
0300 200 6565
sulafa.thomas@Cynulliad.Cymru


## Agenda AC(4)2015(3)

### 1 Rhagarweiniad

**Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

**Datganiadau o fuddiant**

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol** (Tudalennau 1 - 3)

### 2 Diweddariad Briffio diogelwch

*Papur i ddilyn*

### 3 Ymgysylltu â phobl Cymru (Tudalennau 4 - 21)

### 4 Unrhyw fater arall

# Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 29 Ionawr 2015** |
| Amser: | **13.00 – 14.55** |

## Cofnodion: AC(4)2015(2)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Y Fonesig Rosemary Butler AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Angela Burns AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Rhodri Glyn Thomas AC** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Neil Bradley, Cydgysylltydd Cynaliadwyedd y Cynulliad**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Mair Barnes, Cynghorwr Annibynnol**<br>**Jon Stratford, Assistant Chief Constable, Heddlu De Cymru**<br>**Josh Jones, Chief Superintendent, Heddlu De Cymru** |

## 1 Rhagarweiniad

1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

**Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.**

1.2 Datganiadau o fuddiant

**Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.**

1.3 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ionawr.**

## 2 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelwch - Eitem lafar

Cafodd y Comisiwn sesiwn friffio diogelwch, a bydd yn ystyried amrywiaeth o opsiynau mewn cysylltiad â diogelwch ar y safle. Penderfynodd y Comisiynwyr drafod y mater eto yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror.

## 3 Strategaeth Rheoli Carbon - Casgliad a Chynlluniau'r Dyfodol

Trafododd y Comisiynwyr adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o'n prif gyflawniadau mewn cysylltiad â'r targedau corfforaethol ac a arweiniodd at y Strategaeth Rheoli Carbon. Croesawodd y Comisiynwyr y manylion am y gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau carbon a gyflwynwyd drwy'r strategaeth hon. Mae'r Comisiwn yn bwriadu adeiladu ar y llwyddiant hwn yn y blynyddoedd i ddod drwy'r Trywydd Lleihau Ynni y cytunwyd arno y llynedd.

Canmolodd y Comisiynwyr yr adroddiad a'r gwaith a wnaed i gyflawni llwyddiant o'r fath, gan dynnu sylw'n benodol at y wobr ddiweddar ar gyfer Sefydliad Sector Cyhoeddus Mwyaf Cynaliadwy mewn Llywodraeth ledled y DU. Cytunwyd y dylid cyhoeddi'r adroddiad ar dudalen cynaliadwyedd gwefan y Comisiwn.

## 4 Adroddiad ar Berfformiad Corfforaethol, Ebrill - Mehefin 2014

Trafododd y Comisiynwyr bapur a oedd yn nodi'r Adroddiad Perfformiad Corfforaethol drafft ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill a Rhagfyr 2014.

Ystyriodd y Comisiynwyr nifer o feysydd a drafodir yn yr adroddiad, gan ganolbwyntio'n benodol ar ymweliadau gan ysgolion a gwella lefelau salwch staff.

Nododd y Comisiynwyr pa mor ddefnyddiol oedd yr adroddiad ond efallai bod angen ystyried ei symleiddio a pheidio â chael gormod o dargedau.

## 5 Adroddiad ar y Prif Bwyntiau (Gorffennaf - Rhagfyr 2014)

Adolygodd y Comisiynwyr yr adroddiad diweddaraf ar y prif bwyntiau a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y prif weithgareddau a phrosiectau ers mis Mehefin 2014. Cytunwyd i gyhoeddi'r adroddiad a sicrhau ei fod ar gael i Aelodau.

## 6 Adolygiad o Effeithiolrwydd Comisiwn y Cynulliad – y diweddaraf ar y camau gweithredu

Gwnaeth y Comisiwn adolygu a diweddaru ei Gynllun Gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad ar adolygiad o effeithiolrwydd y Comisiwn.

## 7 Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg - 10 Tachwedd 2014

Nododd y Comisiynwyr gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 10 Tachwedd, ar ôl cael diweddariad ar lafar am y cyfarfod ym mis Rhagfyr.

## 8 Unrhyw fater arall

Bydd y Comisiwn yn cyfarfod nesaf ar 9 Chwefror, pan fydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl Cymru, a bydd y Comisiynwyr yn trafod materion diogelwch unwaith eto.

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon